# CYNGOR TREF Y RHYL

# POLISI DIOGELU DATA

**Mabwysiadwyd y fersiwn hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Mehefin 2019.**

**Dyddiad Adolygu: 5ed Mehefin 2021**

Cyngor Tref y Rhyl
Swyddfeydd Dinesig
Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington
Ffordd Wellington
Y Rhyl LL18 1LE

Ebost: enquiries@rhyltowncouncil.org.uk

Ffôn: 01745 331114

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Tref y Rhyl yn ymroddedig i warchod hawliau a rhyddid gwrthrychau data a phrosesu eu data yn ddiogel yn unol â phob un o'n rhwymedigaethu cyfreithiol.

Rydym yn cadw data personol am ein gweithwyr, trigolion ac unigolion eraill am amrywiol resymau.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut rydym yn ceisio amddiffyn data personol a sicrhau ein bod yn deall y rheolau sy'n llywodraethu defnyddio data personol rydym yn ei dderbyn wrth gyflenwi ein gwasanaethau. Yn benodol, mae'r polisi hwn yn gofyn i staff sicrhau bod ymgynghoriad gyda'r Swyddog Diogelu Data (SDD) cyn cychwyn ar unrhyw weithgaredd preosesu data arwyddocaol newydd i sicrhau bod y camau cydymffurfio perthnasol yn cael eu dilyn.

# Diffiniadau

## Pwrpasau:

Y pwrpasau y gellir defnyddio data personol gennym ni:
Personél, gweinyddol, ariannol, rheoleiddiol, cyflogau a phwrpasau datblygu gwasanaeth, *gan gynnwys y canlynol:*

- *Cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol ac arferion da gan gynnwys cydymffurfio gyda chontractau cyflogaeth*
- *Casglu gwybodaeth i'n galluogi i gyflenwi ein gwasanaethau*
- *Rhesymau gweithredol, megis cofnodi trafodion, rheoli ansawdd, recriwtio, hyfforddi, dilysu diogelwch, sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth sensitif*
- *Ymchwilio i gwynion ac ymateb i ymholiadau*
- *Gwirio tystlythyrau, sicrhau arferion gwaith diogel, monitro a rheoli mynediad staff i systemau a chyfleusterau ac absenoldeb staff, gweinyddiaeth ac asesiadau*
- *Monitro ymddygiad staff, materion disgyblu*
- *Hyrwyddo gwasanaethau a digwyddiadau'r Cyngor*
- *Gwella gwasanaethau*

## Data personol

Mae 'data personol' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol a adnabuwyd neu y gellir ei adnabod ('gwrthrych data'); mae person naturiol y gellir ei adnabod yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at nodwedd adnabod megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, nodwedd adnabod arlein neu i un ffactor neu fwy sy'n benodol i hunaniaeth corfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.

Gall data personol rydym yn ei gasglu gynnwys: rhif ffôn unigolyn, cyfeiriad cartref, cefndir addysgol, ariannol a manylion cyflog, manylion addysg a sgiliau, statws priodasol, cenedlaetholdeb a CV.

### Categorïau arbennig o ddata personol

Mae categorïau arbennig o ddata yn cynnwys gwybodaeth am darddiad hiliol neu ethnig unigolyn, barn wleidyddol, cred grefyddol neu debyg, aelodaeth o undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, troseddau neu achosion cysylltiedig, a gwybodaeth genetig a biometrig – dylai unrhyw ddefnydd o gategorïau arbennig o ddata personol gael ei reoli'n llym yn unol â'r polisi hwn.

### Rheolwr data

Mae 'rheolwr data' yn golygu'r person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn penderfynu pwrpas a dulliau prosesu data personol; lle mae'r pwrpasau a'r dulliau o brosesu yn cael eu penderfynu gan y gyfraith. Cyngor Tref y Rhyl yw'r Rheolwr Data.

### Proseswr data

Mae 'proseswr' yn golygu person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyheoddus, asiant neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran y rheolwr.

### Prosesu

Mae 'prosesu' yn golygu unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a gaiff eu perfformio ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, boed gan ddull awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, strwythuro, storio, addasu neu newid, adfer, ymgynghori, defnyddio, datgelu drwy ddarlledu, dosbarthu neu ryddhau fel arall, alinio  neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio.

### Awdurdod goruchwylio

Dyma'r corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddiogelu data. Yr awdurdod goruchwylio ar gyfer ein sefydliad yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG).

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a chynghorwyr, a ddylai fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a chydymffurfio gyda'i delerau.

Mae'r polisi hwn yn ategol i'n polisïau eraill pan gaiff ei fabwysiadu mewn cysylltiad â defnyddio'r rhyngrwyd ac ebost, a chadw dogfennau. Gallwn ychwanegu at neu newid y polisi hwn gyda pholisïau a chanllawiau ychwanegol o bryd i'w gilydd.

## Yr egwyddorion

Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data (yr Egwyddorion) a nodir yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE. Byddwn yn

gwneud pob ymdrech i gydymffurfio gyda'r egwyddorion hyn ym mhopeth a wnawn.
Yr Egwyddorion yw:

**1. Cyfreithlon, teg a thryloyw:** Rhaid i gasglu data fod yn deg, i bwrpas cyfreithlon a rhaid i ni fod yn agored a thryloyw o ran sut defnyddir y data.

**2. Cyfyngedig i'w bwrpas:** Gellir ond casglu data i ddibenion penodol.

**3. Minimeiddio data:** Rhaid i unrhyw ddata a gesglir fod yn angenrheidiol a ddim yn ormodol i'r pwrpas.

**4. Cywir:** Rhaid i'r data a ddelir gennym fod yn gywir a rhaid ei ddiweddaru'n rheolaidd.

**5. Cadw:** Ni chawn gadw data am gyfnod hirach na sydd ei angen.

**6. Cyfanrwydd a chyfrinachedd:** Rhaid i'r data sydd gennym gael ei gadw'n ddiogel a sicr.

## Atebolrwydd a thrylowyder

Rhaid i ni sicrhau atebolrwydd a thryloywder ym mhob defnydd o ddata personol. Rhaid i ni ddangos sut rydym yn cydymffurfio gyda phob Egwyddor. Mae staff yn gyfrifol am gadw cofnod ysgrifenedig o sut mae'r holl weithgareddau prosesu data y maent yn gyfrifol amdanynt yn cydymffurfio gyda phob Egwyddor. Rhaid diweddaru hyn a rhaid iddo fod ar gael i'r SDD er mwyn archwilio cydymffurfedd gyda'r polisi hwn.

I gydymffurfio gyda chyfreithiau diogelu data ac Egwyddor atebolrwydd a thryloywder GDPR, rhaid i ni arddangos cydymffurfedd. Mae staff yn gyfrifol am ddeall eu cyfrifoldebau penodol i sicrhau ein bod yn bodloni'r rhwymedigaethau diogelu data canlynol:

- Gweithredu'n llawn holl fesurau technegol a gweithdrefnol priodol

- Cadw dogfennau diweddaraf a pherthnasol ar bob gweithgaredd prosesu

- Ymgymryd ag archwiliadau data ac asesiadau risg gan gynnwys Asesiadau Effaith ar Breifatrwydd lle mae angen y rhain

- Gweithredu mesurau i sicrhau preifatrwydd drwy ddyluniad ac yn ddiofyn:

    - Minimeiddio data
    - Cofnod dienw lle adnabyddir bod angen hynny
    - Trylowyder
    - Caniatáu i unigolion fonitro prosesu

- Creu a gwella trefniadau diogelwch a phreifatrwydd manylach yn rheolaidd

# Ein trefniadau

## Prosesu teg a chyfreithlon

Byddwn yn prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon yn unol â hawliau unigolion dan yr Egwyddor gyntaf. Mae hyn yn gyffredinol yn golygu na ddylwn brosesu data personol oni fo gennym sylfaen cyfreithlon i brosesu'r data personol. Os na fedrwn ddefnyddio sylfaen cyfreithlon (a esbonir isod), nid yw'r prosesu yn cydymffurfio â'r Egwyddor gyntaf a bydd yn anghyfreithlon. Mae gan wrthrych data yr hawl i gael dileu unrhyw ddata a brosesir yn anghyfreithlon.

## Rheolwr Data

Cyngor Tref y Rhyl yw'r rheolwr data (ac rydym hefyd yn prosesu data). Rhaid i ni gadw ein cofrestriad priodol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn parhau i reoli a phrosesu data yn gyfreithlon.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth o ran sut rydym yn trin data, cysylltwch â'r SDD i gael esboniad.

## Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data

Byddwn yn sefydlu sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data. Byddwn yn sicrhau bod gan unrhyw ddata rydym yn gyfrifol amdano sail gyfreithlon a gymeradwywyd gan yr SDD. Mae gennym gyfrifoldeb i wirio'r sail gyfreithlon ar gyfer unrhyw ddata rydym yn gweithio gydag o ac yn sicrhau bod pob un o'n gweithredoedd yn cydymffurfio â'r sail gyfreithlon. basis. Rhaid i o leiaf un o'r amodau canlynol fod yn berthnasol pryd bynnag y byddwn yn prosesu data personol:

**1. Caniatâd:** Mae gennym ganiatâd diweddar, clir, penodol a diffiniedig i brosesu data unigolyn i ddiben penodol.
**2. Contract:** Mae angen prosesu er mwyn cyflawni neu baratoi contract ar gyfer yr unigolyn.
**3. Rhwymedigaeth gyfreithlon:** Mae gennym rwymedigaeth gyfreithlon i brosesu'r data (ac eithrio contract).
**4. Buddiannau hanfodol:** Mae angen prosesu'r data i amddiffyn bywyd person neu mewn sefyllfa feddygol.
**5. Tasg Gyhoeddus:** Mae angen prosesu i ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus, tasg o fudd cyhoeddus neu mae gan y swyddogaeth sail glir dan y gyfraith.
**6. Buddiannau dilys:** Mae angen prosesu er mwyn ein buddiannau dilys. Nid yw'r amod hwn yn berthnasol os oes rheswm da i warchod data personol yr unigolyn sy'n mynd y tu hwnt i'r buddiant dilys.

## Penderfynu ar ba amod i ddibynnu arno

Os ydym yn gwneud asesiad o'r sail gyfreithlon, rhaid i ni sefydlu i ddechrau bod y prosesu yn angenrheidiol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r prosesu fod yn ddull a dargedir, priodol i gyflawni'r pwrpas a ddatganwyd. Ni allwn ddibhynnu ar sail gyfreithlon os gallwn yn rhesymol gyflawni'r un pwrpas drwy gyfrwng rhyw ddull arall.

Gall mwy nag un sail gyfreithlon fod yn berthnasol, a byddwn yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf addas, nid yr hyn sydd hawddaf.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau canlynol ac yn cofnodi ei atebion:
- Beth yw pwrpas prosesu'r data?
- A ellir ei wneud yn rhesymol mewn ffordd arall?
- A oes dewis o ran prosesu'r data ai peidio?
- Pwy sy'n elwa o'r prosesu?
- Ar ôl dewis sail gyfreithlon, a yw hyn yr un fath â'r sail gyfreithlon y byddai gwrthrych y data yn ei ddisgwyl?
- Beth yw effaith y prosesu ar yr unigolyn?
- A ydych mewn sefylllfa lle mae gennych bŵer drostynt?
- A ydynt yn berson sy'n agored i niwed?
- A fyddent yn debygol o wrthwynebu'r prosesu?
- A yw'r Cyngor yn gallu stopio'r prosesu ar unrhyw adeg os gwneir cais, ac a ydych wedi ystyried sut i wneud hyn?

Mae ein hymrwymiad i'r Egwyddor gyntaf yn gofyn i ni gofnodi'r broses hon a dangos ein bod wedi ystyried pa sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol i bob pwrpas prosesu, a chyfiawnhau'r penderfyniadau hyn yn llawn.

Rhaid i ni hefyd sicrhau bod unigolion y mae eu data yn cael ei brosesu gennym yn cael eu hysbysu o'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eu data, ynghyd â'r pwrpas bwriedig. Dylai hyn ddigwydd drwy gyfrwng hysbysiad preifatrwydd. Mae hyn yn berthnasol os ydym wedi casglu'r data yn uniongyrchol gan yr unigolyn, neu o ffynhonnell arall.

Rhaid i staff/Cynghorwyr sy'n gyfrifol am wneud asesiad o'r sail gyfreithlon a gweithredu'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y gweithgaredd prosesu gael adolygu hyn gan yr SDD.

# Categorïau arbennig o ddata personol

## Beth yw categorïau arbennig o ddata personol?

Gynt galwyd hyn yn ddata personol sensitif, ac mae'n golgu data am unigolyn sydd yn fwy sensitif, ac felly mae angen mwy o amddiffyniad. Gallai'r math hwn o ddata greu risg mwy arwyddocaol i hawliau a rhyddid sylfaenol person, er enghraifft trwy eu rhoi mewn perygl o gamwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'r categorïau arbennig yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth am y canlynol

• hil
• tarddiad ethnig
• gwleidyddiaeth
• crefydd
• aelodaeth o undeb llafur
• iechyd

Yn y rhan fwyaf o achosion pan fyddwn yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol, byddwn angen caniatâd *diamwys* gwrthrych y data oni fo amgylchiadau eithriadol neu os oes angen i ni wneud hyn dan y gyfraith (e.e. i gydymffurfio gyda rhwymedigaethau cyfreithiol i sicrhau iechyd a diogelwch yn y gwaith). Bydd angen i unrhyw ganiatâd o'r fath adnabod yn glir beth yw'r data perthnasol, pam y mae'n cael ei brosesu ac i bwy y caiff ei ddatgelu.
Rhaid i'r amod ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol gydymffurfio gyda'r gyfraith. Os nad oes gennym sail gyfreithlon ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata yna rhaid i'r prosesu hwnnw ddod i ben.

# Cyfrifoldebau

## Ein cyfrifoldebau corfforaethol

• Dadansoddi a chofnodi'r math o ddata personol a ddelir gennym
• Gwirio trefniadau i sicfrhau eu bod yn cynnwys holl hawliau'r unigolyn
• Adnabod y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data
• Sicrhau bod trefniadau caniatâd yn gyfreithlon
• Gweithredu ac adolygu trefniadau i ddarganfod, adrodd ac ymchwilio i dor-rheol o ran data personol
• Storio data mewn dulliau diogel
• Asesu'r risg y gellir ei chynrychioli i hawliau a rhyddid unigolyn os caiff data ei beryglu

## Cyfrifoldebau Staff/Cynghorwyr

• Deall yn llawn eich rhwymedigaethau diogelu data
• Gwirio bod unrhyw weithgareddau prosesu data rydych yn delio â nhw yn cydymffurfio gyda'n polisi a bod cyfiawnhad iddynt
• Peidio â defnyddio data mewn unrhyw fodd anghyfreithlon
• Peidio â storio data'n anghywir, bod yn ddiofal gyda data neu fel arall achosi i ni dorri cyfreithiau diogelu data a'n polisïau drwy eich gweithredoedd

• Cydymffurfio gyda’r polisi hwn bob amser
• Codi unrhyw bryderon, hsybysu o unrhyw dor-rheol neu gamgymeriadau ac adrodd am unrhyw beth amheus neu anghyson i’r polisi hwn neu ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn ddi-oed

## Cyfrifoldebau’r Swyddog Diogelu Data

• Diweddaru’r cyngor ar gyfrifoldebau, risgiau a phroblemau diogelu data
• Adolygu holl drefniadau a pholisïau diogelu data yn rheolaidd
• Adolygu’r llechres data
• Ymgymryd ag archwiliadau mewnol o gydymffurfio gyda’r GDPR
• Ateb cwestiynau ar ddiogelu data gan staff a chynghorwyr
• Gwirio a chymeradwyo cytundebau prosesu data gyda thrydydd partïon
• Cynorthwyo gyda chwblhau Asesiadau o Effaith ar Breifatrwydd
• Ymchwilio i ac adrodd am unrhyw dor-rheol data

## Cyfrifoldebau Diogelwch TG

• Sicrhau bod holl systemau, gwasanaethau, meddalwedd ac offer yn bodloni safonau diogelwch derbyniol
• Gwirio a sganio caledwedd a meddalwedd diogelwch yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio’n iawn
• Ymchwilio gwasanaethau trydydd parti, megis gwasanaethau cwmwl y mae’r cyngor yn ystyried eu defnyddio i storio neu brosesu data

## Cywirdeb a pherthnasedd

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata persool rydym yn ei brosesu yn gywir, yn ddigonol, yn berthnasol ac nad yw’n ormodol, o ystyried y pwrpas y cafwyd y data. Ni fyddwn yn prosesu data personol a gafwyd i un diben i bwrpas arall nad yw’n gysylltiedig oni foi’r unigolyn dan sylw wedi cytuno gyda hyn neu a fyddai fel arall yn disgwyl hyn yn rhesymol.
Caiff unigolion ofyn i ni gywiro data personol anghywir sy’n ymwneud â nhw. Os ydych yn credu bod gwybodaeth yn anghywir dylech gofnodi’r ffaith bod cywirdeb yr wybodaeth yn cael ei herio a hysbysu’r SDD.

## Diogelwch data

Byddwn yn cadw data personol yn ddiogel rhag colled neu gamddefnydd. Lle mae sefydliad arall yn prosesu data personol gwasanaeth gwasanaeth ar ein rhan, rhaid gwneud cytyndeb gyda’r sefydliadau trydydd parti hynny gan gynnwys trefniadau diogelwch data penodol.

## Storio data’n ddiogel

• Mewn achosion lle caiff data ei storio ar bapur wedi ei argraffu, dylid ei gadw mewn lle diogel lle na all staff heb awdurdod ei weld
• Dylid rhwygo data wedi'i argraffu pan nad oes ei angen mwyach, gyda chyfeiriad at y cyfyngiadau amser ym Mholisi Cadw Dogfennau'r Cyngor
• Dylid diogelu data a gaiff ei storio ar gyfrifiadur gyda chyfrineiriau cryf sy'n cael eu newid yn rheolaidd. Rydym yn annog holl staff i ddefnyddio rheolwr cyfrineiriau i greu a storio eu cyfrineiriau.
• Rhaid amgryptio data a gaiff ei storio ar CD neu gof bach neu yriant caled sy'n cael ei blwgio i mewn neu eu hamddiffyn gyda chyfrinair a'u rhoi dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
• Rhaid i'r SDD gymeradwyo unrhyw gwmwl a gaiff ei ddefnyddio i storio data
• Rhaid cadw gweinyddion sy'n cynnwys data personol mewn lleoliad diogel, i ffwrdd o'r swyddfa gyffredinol, a'u hamddiffyn gyda meddalwedd diogelwch
• Dylid copïo data yn rheolaidd yn unol â threfniadau copïo'r
• Ni ddylid cadw data personol ar ddyfeisiau symudol megis gliniadur, llechen neu ffôn clyfar
• Rhaid cymryd pob mesur technegol posibl i gadw data'n ddiogel

## Cadw data

Ni ddylem gadw data personol am gyfnod hwy na sydd ei angen. Bydd yr hyn sydd ei angen yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos, gan gymryd i ystyriaeth y rhesymau dros gadw'r data personol, ond dylid penderfynu ar hyn mewn dull sy'n gyson gyda'n canllawiau cadw data fel y nodir yn ein polisi cadw data.

## Trosglwyddo data yn rhyngwladol

Mae cyfyngiadau ar drosglwyddo data yn rhyngwladol y tu allan i AEE. Ni fyddwn yn trsglwyddo data personol dramor, nac i unrhyw le arall y tu allan i'r rheolau a'r gweithdrefnau arferol heb gael barn yr SDD yn gyntaf.

# Hawliau unigolion

Mae gan unigolion hawl i'w data ac mae angen i ni barchu hyn a chydymffurfio hyd eithaf ein gallu. Rhaid i ni sicrhau bod unigolion yn gallu ymarfer eu hawliau yn y dulliau canlynol:

## 1. Hawl i gael eu hysbysu

• Darparu hysbysiadau preifatrwydd sy'n gryno, yn agored, yn ddealladwy ac yn hawdd eu cael, yn rhad ac am ddim, sydd wedi eu hysgrifennu mewn iaith glir a syml, yn enwedig os ydynt wedi eu hanelu at blant.
• Cadw cofnod o sut rydym yn defnyddio data personol i ddangos ein bod yn cydymffurfio gyda'r angen am atebolrwydd a thryloywder.

## 2. Hawl mynediad

• Galluogi i unigolion weld eu data personol a gwybodaeth ategol.
• Caniatáu i unigolion fod yn ymwybodol o a dilysu cyfreithlondeb y gweithgareddau prosesu

## 3. Hawl cywiro

• Byddwn yn cywiro neu newid data personol unigolyn os cawn gais i wneud hynny oherwydd ei fod yn anghywir neu'n anghyflawn.
• Gwneir hyn yn ddi-oed, a dim hwyrach nag un mis yn ddiweddarach. Gellir ymestyn y cyfnod i ddau fis gyda chaniatâd yr SDD.

## 4. Hawl dileu

• Byddwn yn dileu data unigolyn os ceir cais ac os nad oes rheswm cryf dros barhau i'w brosesu.

## 5. Hawl i gyfyngu prosesu

• Byddwn yn cydymffurfio gydag unrhyw gais i gyfyngu, blocio neu atal prosesu data personol fel arall.
• Caniateir i ni storio data personol os yw wedi ei gyfyngu, ond ddim ei brosesu ymhellach. Byddwn yn cadw digon o ddata i sicrhau bod yr hawl i gyfyngu yn cael ei pharchu yn y dyfodol.

## 6. Hawl i hygludedd data

• Byddwn yn darparu eu data i unigolion er mwyn iddynt allu ei ailddefnyddio i'w dibenion eu hunain neu ar draws gwahanol wasanaethau.
• Byddwn yn ei ddarparu ar ffurf a ddefnyddir yn gyffredin, y gellir ei ddarllen gan beiriant, a'i anfon yn uniongyrchol at reolwr arall os gofynnir am hynny.

## 7. Hawl i wrthwynebu

• Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu prosesu data yn seiliedig ar fuddiant dilys neu ymgymryd â thasg budd cyhoeddus.
• Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu i farchnata uniongyrchol, gan gynnwys proffilio.
• Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu i brosesu eu data am resymau gwyddonol ac ymchwil hanesyddol ac ystadegau.

## 8. Hawliau mewn perthynas â chymryd penderfyniadau awtomataidd a phroffilio

• Byddwn yn parchu hawliau'r unigolyn mewn perthynas â chymryd penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.
• Mae unigolion yn cadw eu hawl i wrthwynebu prosesu awtomataidd o'r fath, cael esbonio'r rhesymeg iddynt a gofyn am ymyrraeth ddynol.

# Hysbysiadau preifatrwydd
## Pryd y byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd

Darperir hysbysiad preifatrwydd pan geir y data os daw yn uniongyrchol gan wrthrych y data. Os nad yw'r data yn dod yn uniongyrchol gan wrthrych y data, rhaid darparu'r hysbysiad preifatrwydd o fewn cyfnod rhesymol ar ôl cael y data, sy'n golygu o fewn mis.

Os yw'r data'n cael ei ddefnyddio i gyfathrebu gyda'r unigolyn, yna bydd yr hysbysiad preifatrwydd yn cael ei ddarparu ar yr hwyraf pan fydd y cyfathrebu yn digwydd gyntaf.
Os rhagwelir datgelu i rywun arall, yna bydd yr hysbysiad preifatrwydd yn cael ei ddarparu cyn datgelu'r data.

## Beth i'w gynnwys mewn hysbysiad preifaatrwydd

Bydd ein hysbysiadau preifatrwydd yn gryno, yn agored, yn ddealladwy ac yn hawdd eu gweld. Maent yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim ac mewn iaith glir a syml, yn enwedig os ydynt wedi eu hanelu at blant.

Bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chynnwys mewn hysbysiad preifatrwydd i bob gwrthrych data:

- Gwybodaeth adnabod a chyswllt y rheolwr data a'r swyddog diogelu data
- Pwrpas prosesu'r data a'r sail gyfreithlon dros wneud hhynny
- Buddiannau dilys y rheolwr neu drydydd parti, os yn berthnasol
- Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, os yn berthnasol
- Categori'r data personol (dim ond ar gyfer data na cheir yn uniongyrchol gan wrthrych y data)
- Unrhyw dderbyniwr neu gategori o dderbynwyr data personol
- Gwybodaeth fanwl unrhyw drosglwyddiad i drydydd gwlad a'r rhagofalon sy'n bodoli
- Cyfnod cadw'r data neu'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar y cyfnod cadw, gan gynnwys manylion gwaredu'r data ar ôl y cyfnod cadw
- Yr hawl i wneud cwyn i'r SCG, a'r drefn gwyno fewnol
- Ffynhonnell y data personol, ac a ddaeth o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus (dim ond ar gyfer data nad yw'n dod yn uniongyrchol gan wrthrych y data)
- Unrhyw fodolaeth o gymryd penderfyniad awtomataidd, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut y cymerir y penderfyniadau hynny, eu harwyddocâd a'r canlyniadau i wrthrych y data
- Os yw darparu data personol yn rhan o ofyniad cytundebol neu rwymedigaeth a chanlyniadau posibl unrhyw fethiant i ddarparu'r data (dim ond ar gyfer data a geir yn uniongyrchol gan wrthrych y data)

# Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth

## Beth yw cais gwrthrych am wybodaeth?

Mae gan unigolyn yr hawl i dderbyn cadarnhad bod eu data yn cael ei brosesu, cael gweld eu data personol a gwybodaeth ategol sy'n golygu y dylid darparu'r wybodaeth mewn hysbysiad preifatrwydd.

## Sut rydym yn delio gyda cheisiadau gwrthrych am wybodaeth

Byddwn yn darparu copi o'r wybodaeth i'r unigolyn, yn rhad ac am ddim. Rhaid gwneud hyn yn ddi-oed, ac o fewn mis o dderbyn y cais. Rydym yn ceisio darparu gwrthrych data gyda mynediad at eu gwybodaeth ar ffurf electronig a ddefnyddir yn gyffredin, a lle bo modd, rhoi mynediad uniongyrchol i'r wybodaeth drwy system ddiogel a ddefnyddir o bell.

Os yw cydymffurfio gyda'r cais yn gymhleth neu'n niferus, gellir ymestyn y cyfnod i ddau fis, ond rhaid hysbysu'r uniglyn o fewn mis. Gofynnir am gymeradwyaeth yr SDD cyn ymestyn y cyfnod.

Gallwn wrthod ymateb i rai ceisiadau a gallwn, os yw amgylchiadau'r cais yn ddi-sail neu'n ormodol, godi ffi. Os yw'r cais am lawer iawn o ddata, gallwn ofyn i'r unigolyn nodi'r wybodaeth y maent ei heisiau. Gellir ond gwneud hyn gyda chaniatâd penodol gan yr SDD.

Unwaith y mae cais gwrthrych am ddata wedi ei wneud, ni fyddwn yn newid na diwygio'r data sy'n destun cais. Mae gwneud hynny yn drosedd.

# Hawl i ddileu

## Beth yw'r hawl i ddileu?

Mae gan unigolion hawl i gael dileu eu data ac i brosesu ddod i ben dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle nad oes angen y data personol bellach mewn perthynas â'r pwrpas y casglwyd a/neu a broseswyd y data yn wreiddiol
- Lle tynnir caniatâd yn ôl
- Lle mae'r unigolyn yn gwrthwynebu prosesu ac nid oes buddiant dilys pwysicach dros barhau i brosesu
- Rodd y data personol wedi ei brosesu yn anghyfreithlon neu roedd fel arall yn torri cyfreithiau diogelu data
- I gydymffurfio gyda rhwymedigaeth cyfreithiol
- Mae'r prosesu yn ymwneud â phlentyn

### Sut rydym yn delio gyda'r hawl i ddileu

Gallwn ond wrthod cydymrffio gyda hawl i ddileu dan yr amgylchiadau canlynol:
• I ymarfer hawl rhyddid mynegiant a gwybodaeth
• I gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol i ymgymryd â thasg o fuddiant cyhoeddus neu i ymarfer awdurdod swyddogol neu i gydymffurfio gyda chontract
• I bwrpasau iechyd cyhoeddus er budd y cyhoedd
• I ddibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil wyddonol, ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol
• I ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol
Os yw'r data personol sydd angen ei ddileu wedi ei roi i bartïon neu dderbynwyr eraill, rhaid cysylltu â nhw a'u hysbysu o'u hymrwymiad i ddileu'r data. Os yw'r unigolyn yn gofyn, rhaid i ni eu hysbysu o'r derbynwyr hynny.

## Yr hawl i wrthwynebu

Mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu i ddefnyddio eu data am resymau yn ymwneud â'u sefyllfa benodol nhw. Rhaid i ni roi'r gorau i brosesu:

• Oni fo gennym resymau dilys dros brosesu sy'n bwysicach na buddiannau, hawliau a rhyddid yr unigolyn.
• Oni fo'r prosesu yn ymwneud â sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.
Rhaid i ni bob amser hybsysu'r unigolyn o'i hawl i wrthwynebu pan gyfathrebir â nhw yn gyntaf h.y. yn yr hysbysiad preifatrwydd. Rhaid i ni gynnig ffordd i unigolion wrthwynebu arlein.

## Yr hawl i gyfyngu proffilio neu gymryd penderfyniadau awtomataidd

Cawn ond ymgymryd â phroffilio neu gymryd penderfyniadau awtomataidd sydd ag effaith gyfreithiol neu effaith arwyddocaol debyg ar unigolyn dan yr amgylchiadau canlynol:

• Mae angen hynny er mwyn gwneud neu ymgymryd â chontract.
• Yn seiliedig ar ganiatâd penodol yr unigolyn.
• Mae wedi ei awdurdodi fel arall dan y gyffraith.

Dan yr amgylchaidau hyn, rhaid i ni

• Roddi gwybodaeth fanwl i unigolion am y prosesu awtomataidd.
• Cynnig dulliau syml iddynt i ofyn am ymyrraeth ddynol neu i herio unrhyw benderfyniad amdanynt.

• Ymgymryd â gwiriadau rheolaidd a phrofion defnyddwyr i sicrhau bod ein systemau yn gweithio yn ôl y bwriad.

# Yr hawl i hygludedd data

Rhaid i ni ddarparu'r data y gofynnir amdano ar ffurf strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac y gellir ei ddarllen gan beiriant. Rhaid i ni ddarparu'r data hwn naill ai i'r unigolyn sydd wedi gofyn amdano, neu i'r rheolwr data y maent wedi gofyn am gael anfon y data iddo. Rhaid gwneud hyn yn rhad ac am ddim a heb oedi, a dim hwyrach nag un mis. Gellir ymestyn hyn i 2 fis ar gyfer ceisiadau cymhleth neu niferus, ond rhaid hysbysu'r unigolyn am yr estyniad a rhaid gofyn am farn yr SDD yn gyntaf.

# Trydydd partïon

## Defnyddio rheolwyr a phroseswyr trydydd parti

Fel rheolwr data, rhaid i ni gael contract ysgrifenedig gydag unrhyw broseswyr data trydydd parti rydym yn eu defnyddio. Rhaid i'r contract gynnwys cymalau penodol sy'n nodi eu hatebolrwydd, eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau nhw a'n rhai ni.

Fel rheolwr data, dylem ond benodi proseswyr sy'n gallu darparu gwarant ddigonol dan GDPR a bod hawliau gwrthrych data yn cael eu parchu a'u hamddiffyn.

Fel proseswr data, dylem ond weithredu yn unol â chyfarwyddiadau cofnodedig rheolwr. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau fel proseswr data dan GDPR a byddwn yn amddiffyn a pharchu hawliau gwrthrychau data.

## Contractau

Rhaid i'n contractau gydymffurfio gyda'r safonau a bennwyd gan yr SCG a, lle bo modd, rhaid iddynt ddilyn y cymalau cytundebol safonol sydd ar gael. Rhaid i'n contractau gyda phroseswyr data nodi'r pwnc a chyfnod y prosesu, y natur a phwrapas datganedig y gweithgareddau prosesu, y mathau o ddata personol a chategorïau gwrthrych data, a rhwymedigaethau a hawliau'r rheolwr.

Rhaid i'n contractau gynnwys telerau sydd o leiaf yn pennu:

• Gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig yn unig
• Mae'r sawl sy'n prosesu'r data yn destun dyletswydd o gyfrinachedd
• Cymerir mesurau priodol i sicrhau diogelwch y prosesu
• Bydd is-broseswyr ond yn cael eu defnyddio gyda chaniatâd y rheolwr ymlaen llaw a than gontract ysgrifenedig
• Bydd y rheolwr yn cynorthwyo'r proseswr o ran delio gyda cheisiadau gwrthrych am wybodaeth a chaniatáu gwrthrychau data i ymarfer eu hawliau dan GDPR

• Bydd y proseswr yn cynorthyo'r rheolwr i fodloni ei rwymedigaethau GDPR mewn perthynas â diogelwch prosesu, hysbysu o dor-data a gweithredu Asesiadau Effaith ar Ddiogelu Ddata
• Dileu neu ddychwelyd yr holl ddata personol ar ddiwedd y contract
• Derbyn archwiliadau ac arolygiadau rheolaidd a darparu pa bynnag wybodaeth sydd ei hangen i'r rheolwr a'r proseswr allu cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.
• Ni fydd unrhyw beth yn cael ei wneud gan y rheolwr na'r proseswr i dorri'r GDPR.

# Data troseddau

## Archwiliadau cofnod troseddol

Mae unrhyw archwiliad cofnod troseddol yn cael ei gyfiawnhau dan y gyfraith. Ni ellir ymgymryd ag archwiliad cofnod troseddol yn seiliedig ar ganiatâd y gwrthrych yn unig. Ni chawn gadw cofrestr gynhwysfawr o ddata cofnod troseddol. Ystyrir bod holl ddata sy'n ymwneud â throseddau yn gategori data personol arbennig a rhaid ei drin felly.

# Archwiliadau, monitro a hyfforddi

## Archwiliadau data

Bydd archwiliadau data rheolaidd i reoli a lliniaru risg yn bwydo gwybodaeth i'r llechres data. Mae hyn yn chynnwys gwybodaeth ar ba ddata a ddelir, lle caiff ei storio, sut caiff ei ddefnyddio, pwy sy'n gyfrifol ac unrhyw reoliadau pellach neu amserlenni cadw a all fod yn berthnasol. Rhaid ymgymryd ag archwiliad data rheolaidd i sicrhau bod y llechres data wedi ei diweddaru a sicrhau ei bod ar gael i'r SDD.

## Monitro

Rhaid i holl staff a Chynghorwyr y Cyngor Tref gadw at a chydymffurfio â'r polisi hwn. Bydd yr SDD yn ymgymryd ag archwiliadau mewnol o bryd i'w gilydd i fonitro cydymffurfedd y Cyngor gyda'r polisi hwn. Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi hwn ac yn ei newid neu ei ddiwygio fel y bo angen. Rhaid hysbysu'r SDD o unrhyw dor-polisi.

## Hyfforddiant

Bydd staff yn derbyn hyfforddiant digonol ar ddarpariaethau cyfraith diogelu data sy'n benodol i'w rôl. Mae gofyn i staff gwblhau'r holl hyfforddiant fel y gofynnir iddynt. Os yw staff yn newid rôl neu gyfrifoldebau, maent yn gyfrifol am ofyn am hyfforddiant diogelu data newydd sy'n berthnasol i'w rôl neu eu cyfrifoldebau newydd.

# Adrodd am dor-polisi

Rhaid adrodd cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol os caiff y polisi hwn neu gyfreithiau diogelu data eu torri. Mae hyn yn golygu cyn gynted ag yr ydych yn ymwybodol bod tor-rheol wedi digwydd. Mae gan y cyngor ymrwymiad cyfreithiol i adrodd am unrhyw dor-rheol data i'r SCG o fewn 72 awr.

Mae gan holl aelodau staff ymrwymiad cyfreithiol i adrodd am fethiannau diogelu data posibl neu wirioneddol. Mae hyn yn caniatáu i ni:

- Ymchwilio i'r methiant a chymryd camau adfer os oes angen
- Cadw cofrestr o fethiannau cydymffurfio
- Hysbysu'r SCG o unrhyw fethiannau cydymffurfio sy'n berthnasol naill ai ynddynt eu hunain neu fel rhan o batrwm o fethiannau.

Bydd unrhyw aelod staff sy'n methu ag adrodd am dor-rheol neu os canfyddir ei fod wedi gwybod neu amau bod tor-rheol wedi digwydd ond heb ddilyn y trefniadau adrodd cywir yn agored i gamau disgyblu.

## Methu â chydymffurfio

Rydym yn cymryd cydymffurfio gyda'r polisi hwn o ddifrif. Mae methu â chydymffurfio yn rhoi'r aeodau staff unigol a'r Cyngor mewn perygl.

Mae pwysigrwydd y polisi hwn yn golygu bod methiant i gydymffurfio gydag unrhyw ofyniad yn gallu arwain at gamau disgyblu dan ein gweithdrefnau ar gyfer staff a chamau dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr.

## Sicrhau bod Gwybodaeth ar Gael

Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn ddull lle gall y Cyngor ryddhau gwybodaeth gynhwysfawr yn rheolaidd, heb aros i rywun ofyn amdani yn benodol. Bwriad y cynllun yw annog pobl leol i gymryd diddordeb yng ngwaith y Cyngor a'i rôl yn y gymuned

Yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'r Cynllun hwn yn nodi dosbarthiadau'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chyhoeddi neu'n bwriadu ei chyhoeddi. Yn atodol i hyn mae Canllaw Gwybodaeth a fydd yn rhoi mwy o fanylion o'r hyn y bydd y Cyngor yn ei rhyddhau a, gobeithio, yn ei gwneud yn haws i bobl ei gweld.

Mae holl gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'i bwyllgorau yn destun hysbysiad statudol a gaiff ei roi ar fyrddau hysbysu, y wefan ac a anfonir at y cyfryngau lleol. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi rhaglen flynyddol ym mis Mai bob blwyddyn. Mae'r holl gyfarfodydd ffurfiol yn agored i'r cyhoedd a'r wasg ac mae adroddiadau a phapurau cefndir perthnasol y cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Mae'r Cyngor yn croesawu

cyfranogiad y cyhoedd ac mae sesiwn cyfranogiad cyhoeddus ar bob cyfarfod y Cyngor. Mae'r manylion i'w gweld yn Rheolau Sefydlog y Cyngor, sydd ar gael ar ei wefan neu yn ei swyddfeydd.

Weithiau, bydd angen i'r Cyngor neu ei bwyllgorau ystyried materion yn breifat. Mae enghreifftiau o hyn yn faterion sy'n ymwneud â manylion personol staff, neu aelod penodol o'r cyhoedd, neu lle mae manylion o sensitifrwydd masnachol/cytundebol i'w trafod. Bydd hyn ond yn digwydd ar ôl cymryd penderfyniad ffurfiol i wahardd y wasg a'r cyhoedd ac fe nodir y rhesymau am hynny. Mae cofnodion holl gyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys y rhannau cyfrinachol, yn ddogfennau cyhoeddus.

Bydd y Cyngor yn falch o wneud trefniadau arbennig os ceir cais gan rywun nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu i'r sawl sydd ag anawsterau clywed neu weld.

## Gwybodaeth Ddatgelu

Bydd y Cyngor, fel y bo angen, yn ymgymryd ag archwiliadau ar staff ac Aelodau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yn cydymffurfio gyda'u Cod Ymddygiad mewn perthynas â storio'n ddiogel, trin, cadw a gwaredu Gwybodaeth Ddatgelu. Bydd yn cynnwys trefn weithredu briodol o fewn ei system rheoli ansawdd integredig.

## Tryloywder Data

Bydd y Cyngor yn ceisio cyhoeddi data a gwybodaeth gyhoeddus ar ei wefan lle bo modd. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyfrifon diwedd y flwyddyn
- Datganiadau Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Rhestr o gyfrifoldebau Cynghorwyr neu Aelodau a'r pleidiau gwleidyddol y maent yn eu cynrychioli
- Cofnodion drafft a therfynol y Cyngor a'i bwyllgorau o fewn mis
- Rhaglenni a phapurau cysylltiedig dim hwyrach na thri diwrnod clir cyn y cyfarfod.